Rhestr Testunau

# EISTEDDFOD GADEIRIOL
# TREUDDYN

**1863-1952, 1975-2019, 2023….**

## NEUADD YR YSGOL
## DYDD SADWRN,
## 7fed. o HYDREF, 2023

Drysau'n agored am 10.30y.b.
**Yr Eisteddfod i gychwyn am 11.00 y.b. (dan 5 i 11oed)**
**ac am 6 o'r gloch y.h. (dros 11oed)**

## BEIRNIAID

### CERDD, OFFERYNNOL, ALAW WERIN, CERDD DANT
Nia Morgan, Y Bala; Elen Mair Roberts, Trefor, Llangollen

### EMYN DÔN
Y Parchedig Robert Parry, Coedllai

### ADRODD
Marc Lloyd Jones, Yr Wyddgrug

### LLÊN A LLÊN IEUENCTID
Gwynedd Huws Jones, Llidiardau, Y Bala

### ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN
Margaret Jones, Yr Wyddgrug

### CYFEILYDDION
Lowri Hogg, Yr Wyddgrug; Christopher Enston, Treuddyn

### CYFEILYDD CERDD DANT (ar y piano)
Christopher Enston, Treuddyn

### ARWEINYDDION
Meilir Ashford, Yr Wyddgrug; Huw Roberts, Creigiau, Caerdydd
Edwin Jones, Carrog; Hywel Wyn Edwards, Sychdyn

### YSGRIFENYDDES
MRS. CEINWEN PARRY, Bryn Rhos, 7 Ffordd Carreg y Llech, Treuddyn
**01352 771333**

1. **BYDD CYSTADLEUTHAU LLÊN 1 – 8 A CHYFANSODDI EMYN DÔN YN AGORED I BOB OEDRAN, YN ÔL YR ARFER.**

2. **GWOBRWYO SÊR EISTEDDFOD TREUDDYN 2023**
   **CYNNIGIR GWOBRAU YCHWANEGOL I'R RHAI A NODIR YN Y RHESTR TESTUNAU, AM Y PERFFORMIADAU LLWYFAN MWYAF ARBENNIG :**
   **£100 I'R ADRAN GERDD A CHERDD DANT**
   **£100 I'R ADRAN ADRODD**
   **£100 I'R ADRAN OFFERYNNOL**
   ***Sylwer ar RHEOL CYSTADLU 02 isod.**
3. **PRIS MYNEDIAD CÔR £30.00 (sieciau'n daladwy i Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn) erbyn 30.09.23.**
   **Ar ôl derbyn enwau'r corau gyda'r nifer o gantorion ymhob côr – erbyn 30.09.23 – anfonir tocynnau i'r arweinydd / person cyswllt i'w dosbarthu i aelodau'r côr i'w dangos wrth ddrws mynediad i'r Eisteddfod.**

## RHEOLAU CYSTADLU

**01.** **RHAID bod yn yr oedran priodol ar yr 31ain. o Awst, 2023.**

**02.** **Bydd dyfarniad y BEIRNIAD yn derfynol a bydd gan y beirniad yr hawl i rannu, leihau neu atal gwobr.**

**03.** **Rhaid i ymgeiswyr y cystadleuthau hunan-ddewisiad sicrhau bod copi i'r beirniad a'r cyfeilydd. Bydd gan y cyfeilydd yr hawl i wrthod cyfeilio os nad yw wedi derbyn y copi bythefnos o flaenllaw, h.y. ERBYN DYDD SADWRN y 23ain. o Fedi 2023.**

**CYFEILYDD : Bydd rhyddid i blant dan 11oed, unigol, partion, offerynnol a chorau, ddod â'u cyfeilyddion eu hunain.**

******* Mae gwneud copi o gerddoriaeth/ o lenyddiaeth / o ryddiaeth argraffedig dan hawlfraint yn anghyfreithlon. *******

**04.** **LLEFARU I DDYSGWYR**
**(Adran Adrodd rhif 5, 6, 9, 12 ac 13)**
**Cystadleuaeth sydd yn agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r iaith Gymraeg fel oedolyn ac i ddisgyblion ysgol nad ydynt wedi derbyn addysg gyfrwng Gymraeg.**

**05.** **AMLEN O'R MAINT CYWIR GYDA STAMP O'R GWERTH CYWIR I'W DDERBYN GAN YR YSGRIFENYDDES I BWRPAS DYCHWELYD Y CYFANSODDIADAU A'R BEIRNIADAETHAU LLÊN ERBYN DIWEDD MIS TACHWEDD 2023 AR ÔL YR EISTEDDFOD.**
**NI ELLIR DYCHWELYD GWAITH NA GWOBRAU OS NAD OES FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD GAN YR YSGRIFENYDDES.**

**06.** **Cynhelir cystadleuthau dan 11oed yng nghyfarfod y prynhawn.**

**07.** **Bydd rhagbrawf dros 11oed a than 15 oed yn unig os bydd angen – ymofynner â'r Ysgrifenyddes i gadarnhau.**

**08.** **Bydd gan y pwyllgor hawl i newid y trefniadau fel bo gofyn.**

**09.** **Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain neu golled a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r Eisteddfod.**

*****

**10.** **RHAID i'r CYFANSODDIADAU LLÊN a'r EMYN DÔN ddod i law Y BEIRNIAD PENODOL**

**● erbyn DYDD LLUN 18fed. o FEDI 2023 yn DDIFFAEL**

**●Ni sicrheir beirniadu gwaith ar ôl y dyddiad hwn.**

**●Cymraeg fydd iaith y cyfansoddiadau llenyddol.**

**(A)** **LLÊN 1 – 11 (oedolion a ieuenctid) – i law :**
**Mr. Gwynedd Huws Jones,**
**Fferm Maes y Waun, Llidiardau, Y Bala, LL23 7SF**
**● ERBYN Dydd Llun 18fed. o Fedi 2023.**
**FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**

**(B)** **GWAITH ARLUNIO, CREADIGOL A LLAWYSGRIFEN I'R YSGRIFENYDDES erbyn Dydd Llun 2il. o Hydref 2023 FAN BELLAF.**
**FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**
**Mae angen i'r oedran yn unig fod yn glir ar gefn pob ymgais h.y. dan 5; 5-7; 7-9; neu 9-11.**
**SYLWER : Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am ddychwelyd gwaith yn Adran (B) i'r ymgeiswyr. Bydd angen casglu'r gwaith o Ysgol Terrig cyn diwedd mis Tachwedd 2023.**

**(C)** **EMYN DÔN – i law :**
**Y PARCH Robert Parry BD, BMus, Bryn Dedwydd, 2 County Road, Coedllai, Yr Wyddgrug CH7 4RF**
**ERBYN Dydd Llun 18fed. o Fedi, 2023.**
**FFUGENW, ENW A CHYFEIRIAD pob cystadleuydd i'r Ysgrifenyddes.**
**GWOBR : £12.00; £8.00**

**CYSTADLEUAETH CYFANSODDI TÔN ADDAS…**

**… i'r geiriau isod o waith Y Barchedig Eirlys Gruffydd-Evans, ennillydd cyfansoddi geiriau emyn yn Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn 2019.**
**Diolch am ei chaniatad i gael defnyddio'r geiriau.**

**GWEDDI AM GYMORTH YR YSBRYD GLÂN**

**O gwrando'n gweddi Ysbryd Glân am adnewyddiad yn ein tir.**
**Rho ymhob calon newydd dân i losgi'n eirias dros y gwir.**
**O Ysbryd Glân rho'r hyder gwiw i'n ddweud fod Iesu eto'n fyw.**

**O Ysbryd Glân rho'th olau clir a chrea ynom newydd wyrth,**
**I chwalu nos amheuaeth hir nes down â moliant clau i'th byrth.**
**O Ysbryd Glân rho'r hyder gwiw i'n ddweud fod Iesu eto'n fyw.**

**Rho i ni'r ddawn i dystio nawr bod gobaith inni drwy ei waed.**
**Fel torro eto newydd wawr a phawb yn plygu wrth ei draed.**
**O Ysbryd Glân rho'r hyder gwiw i'n ddweud fod Iesu eto'n fyw.**

**Eirlys Gruffydd-Evans**

**MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 29ain. o FEDI 2023.**

# ADRODD

**01. Dan 5 oed :** **Dw i'n mynd i steddfod Treuddyn**
**Lle caf i hwyl a sbri**
**Ac am lefaru, byddaf**
**Yn gyntaf, wir i chi** **Bethan Jones**
*(copi ar gael gan yr Ysgrifenyddes)*
*Medal a £5.00 i'w rannu*

**02. Dros 5 a than 7 oed :** **DW I'N HOFFI (3 pennill)** **Bethan Jones**
*(copi ar gael gan yr Ysgrifenyddes)*
*Medal a £5.00 i'w rannu*

**03. Dros 7 a than 9 oed :** **SUPERMAN Sandra Anne Morris**
**Arwyr – Cerddi Lloerig, gol Myrddin ap Dafydd; Gwasg Carreg Gwalch**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**04. Dros 9 a than 11 oed :** **HUNANIAETH Gwyneth Glyn (pennill 1, 4, 5 a 6)**
**Cerddi'n Cerdded; Gwasg Gomer**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**05. Dysgwyr dan 9 oed :** **DW I EISIAU Tudur Dylan (5 pennill)**
**Byd llawn hud - Mererid Hopwood; Gwasg Gomer**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**06. Dysgwyr dros 9 a than 11 oed :**
**DWI EISIAU BOD YN GI Lis Jones (pennill 1, 3 a 4)**
**Byw a bod yn y bath; Gwasg Carreg Gwalch**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**07. Parti dan 11 oed (llai na 100 yng CA2):**
**HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
**08. Parti dan 11 oed (mwy na 100 yng CA2):**
**HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*
**09. Parti Dysgwyr dan 11 oed: HUNANDDEWISIAD** *£10.00; £5.00*

**10. Dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
**11. Dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD** *Tlws a £25.00; £15.00*
**12. Dysgwyr dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
**13. Dysgwyr dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlws ac £25.00; £15.00*
**14. Adrodd neu gyflwyniad llafar agored (hyd at 7 munud)**
*£25.00; £15.00*

# OFFERYNNOL

**[pob cystadleuaeth : HUNANDDEWISIAD]**

**01. Unawd piano dan 11 oed** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
**02. Unawd offerynnol (ag eithrio piano) dan 11oed**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
**03. Unawd piano dros 11 oed a than 15 oed**
*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
**04. Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 11 a than 15oed**
*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
**05. Unawd piano dros 15 a than 21 oed (hyd at 7 munud)**
*Tlws a £25.00; £15.00*
**06. Unawd offerynnol [ag eithrio piano] dros 15 a than 21oed (hyd at 7 munud)**
*Tlws a £25.00; £15.00*
**07. Deuawd piano neu offerynnol dan 21 oed** *Tlysau a £30.00; £15.00*
**08. Unawd piano neu offerynnol agored (heb fod dros 7 munud)**
*£25.00; £15.00*

# CERDD

**01. Unawd dan 5 oed : Y BWGAN BRAIN (pennill 1 yn unig)**
**chwarae bariau 7 – 8 fel rhagarweiniad**
**Falyri Jenkins, Codi Bawd a Deud Helo; Y Lolfa**
*Medal a £5.00 i'w rannu*
**02. Unawd dros 5 a than 7 oed : WIL CWAC CWAC (pennill cyntaf yn unig)**
**Mae gen i Gân, Leah Owen a Selwyn Griffith; Cyhoeddiadau Curiad**
*Medal a £5.00 i'w rannu*
**03. Unawd dros 7 a than 9 oed : LLIWIAU'R HYDREF (pob pennill)**
**Hwyl ar y Gân, Gilmor Griffiths; Y Lolfa**
*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
**04. Unawd dros 9 a than 11 oed : WEDI'R GAEAF**
**Hwyl ar y Gân, Gilmor Griffiths; Y Lolfa**

*Medal a £5.00; £3.00; £2.00*

**05. Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion llai na 100 yng CA2):**
**HUNANDDEWISIAD**
*£10.00; £5.00*

**06. Parti Unsain dan 11 oed (ysgolion mwy na 100 yng CA2)**
**HUNANDDEWISIAD**
*£10.00; £5.00*

**07. Unawd dros 11 a than 15 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*

**08. Unawd dros 15 a than 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlws a £25.00; £15.00*

**09. Deuawd dan 21 oed : HUNANDDEWISIAD**
*Tlysau a £30.00; £15.00*

**10. Unawd agored : HUNANDDEWISIAD**
*£25.00; £15.00*

**11. Unawd digyfeiliant agored : HUNANDDEWISIAD**
*£25.00; £15.00*

**12. Côr agored, dros 12 o leisiau, unryw gyfuniad :**
**Rhaglen gyferbyniol heb fod dros 10 munud** *£100.00*

**PWYSIG**
**Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 03**
**Bydd y Cyfeilydd yn falch o dderbyn copïau o'r caneuon a ddewisir gan y cystadleuwyr ar gyfer cystadlaethau 4-10.**
**Anfoner y rhain at – Christopher Enston,**
**Hillgrove, Ffordd Corwen, Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4LD**
**erbyn Dydd Sadwrn yr 18fed. o Fedi, 2023.**

## CERDD DANT

**[pob cystadleuaeth – hunanddewisiad]**

**Y CYSTADLEUWYR I SICRHAU COPI I'R CYFEILYDD YN Y CYWEIRNOD CYWIR**

**01. Unawd dan 11 oed :** *Medal a £5.00; £3.00; £2.00*
**02. Unawd dros 11 a than 15 oed :** *Tlws a £10.00; £6.00; £4.00*
**03. Unawd dros 15 a than 21 oed :** *Tlws a £25.00; £15.00*
**04. Unawd Agored :** *£25.00; £15.00*

## EMYN DÔN

**Cystadleuaeth cyfansoddi tôn addas i'r geiriau (Gweler Tudalen 3, Adran 10(C)) o waith Y Barchedig Eirlys Gruffydd-Evans**

*£12.00; £8.00*

**BYDD CAMPWAITH Y CELFYDDYDAU YN DERBYN TLWS AM FLWYDDYN A THLWS BACH I'W GADW**

## ARLUNIO

**THEMA : EIN HARDAL NI**

| | | |
|---|---|---|
| **01. Dan 5 oed :** | **AGORED** | *£5.00 i'w rannu* |
| **02. Dros 5 a than 7 oed :** | **AGORED** | *£5.00 i'w rannu* |
| **03. Dros 7 a than 9 oed :** | **AGORED** | *£10.00 i'w rannu* |
| **04. Dros 9 a than 11 oed :** | **AGORED** | *£10.00 i'w rannu* |

## CREADIGOL

**THEMA : EIN HARDAL NI**

| | | |
|---|---|---|
| **01. Dan 9 oed :** | **HUNANDDEWISIAD** | *£10.00 i'w rannu* |
| **02. Dros 9 a than 11 oed :** | **HUNANDDEWISIAD** | *£10.00 i'w rannu* |

## LLAWYSGRIFEN

| | | |
|---|---|---|
| **01. Dan 9 oed :** | **YMA O HYD (cytgan yn unig)** | *£10.00 i'w rannu* |
| **02. Dros 9 a than 11 oed :** | **YMA O HYD (pennill gyntaf a'r gytgan)** | *£10.00 i'w rannu* |

## LLÊN

**01 – 08 : OED AGORED**
**09 – 11 : LLÊN IEUENCTID**
**Gweler Rheolau Cystadlu : RHEOL 10(A) tudalen 3**
**Cystadlaethau 01 – 11 (ieuenctid ac oedolion) at y beirniad :**
**GWYNEDD HUWS JONES,**
**Fferm Maes y Waun, Llidiardau, Y Bala, LL23 7SF**
**ERBYN DYDD LLUN y 18fed. o Fedi 2023**

**01. CYSTADLEUAETH Y GADAIR (Un gerdd, casgliad o gerddi neu ddilyniant, caeth neu rydd, heb fod dros 150 llinell)**
**Y DDINAS**
*£50.00 a model o gadair o waith Mr. John Parry, Penrhyndeudraeth.*

| | | |
|---|---|---|
| **02. ENGLYN** | **Y FWYALCHEN** | *£10.00; £5.00* |
| **03. DYCHANGERDD / CERDD DDONIOL** | **BORIS** | *£10.00; £5.00* |
| **04. EMYN** | **PRIODAS** | *£10.00; £5.00* |
| **05. TELYNEG** | **CRYSAU COCH** | *£10.00; £5.00* |
| **06. STORI FER** | **TAITH** | *£25* |
| **07. LIMRIG** | **TRO CYNTAF AETH TWM MEWN AWYREN …..** | *£10.00; £5.00* |
| **08. 3 PENNILL TELYN / TRIBAN** | **YSGWYD LLAW** | *£10.00; £5.0* |

# LLÊN IEUENCTID

**09. Dan 11 oed (ysgol gynradd hyd at Bl. 6)**
**EIN HARDAL NI** *£5.00; £3.00; £2.00*
**10. 11 – 15 oed (ysgol uwchradd Bl. 7 – Bl. 10)**
**TAITH** *£7.00; £5.00; £3.00*
**11. 15 - 19 oed DAU DDARN O WAITH YSGRIFENEDIG**
*Tlws Papur Fama am flwyddyn a £10.00; £5.00*

**MAE'N RHAID I ENWAU'R CYSTADLEUWYR LLWYFAN DDOD I LAW WYTHNOS CYN YR EISTEDDFOD ERBYN Y 29ain. o FEDI 2023.**